CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

CARDIFF HALF MARATHON
HANNER MARATHON CAERDYDD

Hoffech chi redeg hanner marathon Caerdydd? Eleni, bydd y ras ar Ddydd Sul y 4ydd o Hydref 2020. Mae hanner marathon Caerdydd wedi tyfu i fod yn ddigwyddiad cyffrous a phoblogaidd iawn. Erbyn heddiw, mae'n un o'r rasys hanner marathon mwyaf poblogaidd yn Ewrop!

Mae'r digwyddiad wedi tyfu'n fawr iawn ers dechrau yn 2003. Roedd 1,500 o bobl yn rhedeg yn 2003 a heddiw, mae mwy na 27,000 yn rhedeg. Mae'r rhain yn cynnwys pobl o bob oedran, gallu a lefel ffitrwydd gan gynnwys athletwyr poblogaidd fel Mo Farah.

Mae hanner marathon Caerdydd yn aelod o'r SuperHalfs, cyfres fyd-eang o rasys hanner marathon pwysicaf y byd! Mae'r rasys hyn hefyd yn Lisbon, Prâg, Copenhagen a Valencia.

Wrth rhedeg yr hanner marathon yng Nghaerdydd byddwch yn rhedeg heibio Castell Caerdydd, Stadiwm y Principality, Y Ganolfan Ddinesig a'r Senedd ym Mae Caerdydd. Mae llawer o bobl yn dod i gefnogi'r rhedwyr ar hyd y cwrs.

Mae Prifysgol Caerdydd wedi noddi'r ras ers 2016. Mae'r ras yn cefnogi nifer o elusennau ac achosion da ac yn codi dros £3 miliwn bob blwyddyn! Prif elusen y ras ydy'r NSPCC ond gallwch hefyd gefnogi elusennau fel yr Alzheimer's Society, Cancer Research, Marie Curie a Mind.

Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir. ***Circle the correct answer.***

1. Tua sawl person sy'n rhedeg y ras nawr?	2,003	1,500	27,000
2. P'un ydy prif elusen y ras?	Marie Curie	NSPCC	mind for better mental health
3. Pwy sy'n gallu rhedeg?	Pawb	Athletwyr	Lefel ffitrwydd uchel

4. Rhestrwch dri pheth gallwch chi weld wrth redeg y ras yng Nghaerdydd.
List 3 things you could see whilst running the race in Cardiff.

(i).....

(ii) .....

(iii) .....

5. Ydy'r pwyntiau yma yn gywir neu'n anghywir?
Are these points correct or incorrect?

	CYWIR	ANGHYWIR
Mae'r ras yn y gaeaf.		
Mae Hanner Marathon Caerdydd yn un o'r *SuperHalfs.*		
Mae pobl enwog yn rhedeg y ras hon.		
Mae'r ras yn codi dros tair miliwn o bunnoedd am elusennau ac achosion da.		

6. Rydych chi'n gwirfoddoli dros elusen yr *NSPCC*. Ysgrifennwch yn Gymraeg i berswadio pobl i gymryd rhan yn Hanner Marathon Caerdydd yn 2021. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:
- Eich enw a rheswm dros ysgrifennu
- Manylion y ras
- Manteision y profiad
- Rheswm dros godi arian
- Diweddglo priodol

You are volunteering for the NSPCC charity. Write in Welsh to persuade people to take part in the Cardiff Half Marathon in 2021. (About 150 words)

You must include:
- *Your name and your reason for writing*
- *Details of the race*
- *Advantages of the experience*
- *Reason for raising money*
- *An appropriate ending*

TGAU Cymraeg Ail Iaith / GCSE Welsh Second Language

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....